

## “DDIM YN PERTHYN I'R BYD”—GAN EFELYCHU CRIST

*Nodyn i'r siaradwr:*

Trafoda esiampl Crist. Helpa'r gynulleidfa i ddeall ffyrdd ymarferol o sicrhau eu bod nhw ddim yn perthyn i'r byd, gan ddefnyddio esiamplau lleol lle bo modd

### “DDIM YN PERTHYN I'R BYD”—PAM? (5 mun.)

Rhaid i Gristnogion efelychu Iesu Grist drwy sicrhau eu bod nhw “ddim yn perthyn i'r byd” [**Darllen Ioan 17:16**]

Mae'r “byd” yn y cyd-destun hwn yn cyfeirio at y gymdeithas ddynol anghyfiawn sydd wedi pellhau oddi wrth Dduw (*it-2-E 1209-1210*)

Mae'r byd hwn o dan reolaeth Satan y Diafol (1In 5:19)

Mae ysbryd y byd hwn yn annog pobl i adlewyrchu personoliaeth y Diafol (In 8:44; Eff 2:1-3)

Mae'r ysbryd hwn yn annog gwrthryfel yn erbyn safonau Jehofa (Ga 5:19-21)

### DANGOSODD IESU INNI SUT I BARHAU I BEIDIO “PERTHYN I'R BYD” (12 mun.)

Gwrthododd Iesu gael unrhyw ran mewn gwleidyddiaeth (In 6:15; 18:36)

Rhaid i ni aros yn wleidyddol niwtral (*lv 52*, blwch)

Roedd Iesu yn gwrthod materoliaeth (Mth 8:20)

Rhaid inni geisio Teyrnas Dduw yn gyntaf a dysgu bod yn fodlon â'r hyn sydd gennyn ni (Mth 6:31-33; 1Ti 6:8)

Ni adawodd Iesu i'r byd ddylanwadu arno mewn unrhyw ffordd (In 14:30)

Rhaid i ni beidio â charu'r byd na'r pethau yn y byd (1In 2:15, 16)

Dangosodd Iesu drwy esiampl sut i wrthod pethau deniadol y byd (*w13-E 8/15 24-26 ¶7-12*)

Ni wnaeth Iesu erioed adael i chwantau corfforol ei reoli (Lc 4:1-4)

Ni chafodd ei hudo gan yr hyn a welodd (Lc 4:5-8)

Gwrthododd ddangos ei hun (Lc 4:9-12)

Gadewch i Air Duw lywio eich meddyliau a'ch gweithredoedd, fel y gwnaeth Iesu (*w13-E 8/15 26-27 ¶13-17*)

Defnyddiwch Air Duw i frwydro yn erbyn temtasiynau (*2Co 10:3-5; w11-E 1/15 22-24 ¶5-10*)

### CONCRWCH Y BYD, FEL Y GWNAETH IESU (8 mun.)

Mae'r byd yn casáu'r rhai sydd “ddim yn perthyn i'r byd” (In 15:18, 19)

Rhoddodd Iesu sicrhad inni bod hi'n bosib concro'r byd [**Darllen Ioan 16:33**] (*w03-E 3/15 4-6*)

Mae dilynwyr Iesu yn trechu balchder

Dysgodd Iesu ei ddilynwyr i fod yn ostyngedig ac yn barod i wasanaethu eraill (Lc 22:24-27; In 13:3-5, 12-15)

Rhaid inni wrthod yr awydd bydol am enwogrwydd personol (*w12-E 12/15 6-7 ¶9-12*)

Rhaid inni hefyd wrthod y fagl o ddyrchafu diddanwyr neu enwogion y byd chwaraeon

Mae dilynwyr Iesu yn trechu casineb

Mae ofn, anwybodaeth a rhagfarn yn achosi rhaniadau yn y byd

Mewn cyferbyniad llwyr, mae gwir ddilynwyr Iesu wedi eu huno gan gariad hunanaberthol (In 13:34, 35; 15:12, 13; 1In 3:15)

Dyweddodd Iesu y dylai Cristnogion garu eu gelynyddion hyd yn oed (Mth 5:43-45)

Mae ffydd yn hanfodol os ydyn ni am goncro'r byd [**Darllen 1 Ioan 5:3, 4**]

Rhaid inni gael ffydd fod Iesu yn teyrnasu fel Brenin ac ei fod ar fin dinistrio'r byd drygionus hwn

Bydd y fath ffydd yn ein helpu i fod yn benderfynol o ufuddhau i orchmynion Duw ac i beidio mabwysiadu ffyrdd a meddylfryd y byd hwn

### MAE'R BYD DRYGIONUS HWN AR FIN DOD I BEN! (5 mun.)

Yn y dyfodol agos, ni fydd rheolwr y byd hwn yn gallu camarwain dynolryw mwyach (In 16:11; Dat 20:1-3)

Bydd ei fyd a chwantau'r byd yn diflannu am byth! [**Darllen 1 Ioan 2:17**]

Byddwch yn benderfynol o wneud ewyllys Duw drwy'r adeg

Bydd atgofion o boen y frwydr i sicrhau ein bod ni “ddim yn perthyn i'r byd” yn diflannu wrth i Jehofa gyflawni ei holl addewidion gan ein bendithio ni'n fawr (2Co 4:17, 18)

[Glyna'n agos wrth y deunydd yn yr amlinelliad, a chadwa at yr amser a nodwyd ar gyfer pob rhan. Does dim angen darllen na thrafod pob testun y cyfeirir ato. Gweler y llyfr *Ministry School*, tudalennau 52-55, 166-169]